Bwletin rieni 07/05/21

Annwyl Riant/Warcheidwad

Disgwyliadau Penweddig

Anfonwyd llythyr i chi ddoe yn amlinellu ein disgwyliadau wrth i ni ddychwelyd at batrwm o normalrwydd. Rydyn ni wedi bod yn hyblyg dros yr wythnosau cyntaf i roi cyfle i ddisgyblion ymgartrefu yn ôl ond byddwn yn dychwelyd nôl i'n disgwyliadau arferol dros yr wythnos nesaf. Bydd disgyblion yn cael eu hatgoffa o ddisgwyliadau Cymreictod, ymddygiad, gwisg a ffonau ar ddydd Llun a bydd materion sydd angen eu gwella yn cael eu nodi fel bod modd iddynt gael eu datrys ar gyfer dydd Llun 17eg o Fai.

Llwyddiannau a Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau o Jack Allen o flwyddyn 9 am gael ei ddewis i fod yn aelod o garfan tîm Criced Gogledd Cymru. Mae hyn yn dipyn o gamp a llongyfarchiadau mawr iddo!

Mae Glain Llwyd hefyd wedi bod yn brysur dros y cyfnod clo yn recordio cerddoriaeth. Braf yw medru cyhoeddi ei bod yn leisydd gwadd ar sengl newydd y grŵp 'Diffiniad'. Mae 'Woop' ar gael i'w lawrlwytho nawr - mae'n drac arbennig sy'n cael dipyn o sylw ar Radio Cymru a Radio Wales, felly ewch ati i wrando ble bynnag rydych yn ffrydio eich cerddoriaeth.

Dyddiadau Allweddol

Dydd Gwener	28/5	Diwrnod HMS
Dydd Llun-Gwener	31/5-4/6	HANNER TYMOR
Dydd Llun-Gwener	7/6-11/6	Wythnos paratoi am y dyfodol – blwyddyn 12
Dydd Mercher	9/6	Diwrnod HMS
Dydd Mawrth	15/6	Canlyniadau dros-dro Safon Uwch / UG
Dydd Mercher	16/6	Canlyniadau dros-dro TGAU

Rhannu graddau CA4 a CA5: Apeliadau

Mae'r llywodraeth wedi gohirio cyhoeddi manylion y broses apêl ar gyfer graddau. Byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda chi pan mae'r wybodaeth ar gael o'r llywodraeth.

Blwyddyn 12 ar ôl hanner tymor: Wythnos paratoi am y dyfodol

Bydd blwyddyn 12 yn cwblhau eu cyrsiau a'u hasesiadau uwch gyfrannol cyn hanner tymor. Yn dilyn hanner tymor bydd wythnos paratoi am y dyfodol ble bydd cyfle iddynt weithio ar elfennau o baratoi am geisiadau prifysgol neu swyddi. Bydd y gwaith yma yn cael ei wneud ar-lein. Byddant yn dychwelyd i wersi ffurfiol yn dilyn eu canlyniadau ar ddydd Mawrth 15/6.

Profion LFT: Canlyniadau positif

Yn dilyn canlyniad positif mewn prawf LFT yr wythnos hon, ceisiaf egluro beth yw'r prosesau sy'n cael eu dilyn.

Pan fydd neges yn dod atom am ganlyniad prawf positif (trwy LFT@penweddig.ceredigion.sch.uk) byddwn yn gyntaf yn ceisio adnabod unrhyw gyswllt posib - bydd hwn yn cynnwys disgyblion yn yr un dosbarth, ffrindiau sydd yn treulio egwyl a chinio gyda'r person sydd wedi profi'n bositif a rhai sy'n teithio ar yr un bws.

Os yw'r wybodaeth yn ein cyrraedd ni yn y nos neu yn gynnar yn y bore ceisiwn gysylltu gyda'r rhain adref cyn iddynt adael y tŷ. Deallaf fod rhai yn medru pryderu os yw eraill yn cael galwad ond nid y nhw. Byddwn yn galw pawb, - mae gennym rifau ffôn adref a symudol cywir i bron bawb ond os ydych chi wedi symud tŷ neu newid rhif symudol byddai'n ddefnyddiol anfon cadarnhad o'r rhifau hyn i swyddfa'r ysgol trwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Os yw'r wybodaeth yn cyrraedd yn ystod y dydd ysgol byddwn yn galw rhieni a gofyn iddynt gasglu eu plant - nid oes hawl i ni eu hanfon ar drafnidiaeth gyhoeddus. Maen bosib bydd plentyn yn ffonio cyn i ni eich ffonio ac yn yr achos yma bydd y dderbynfa yn rhannu'r wybodaeth allweddol gyda chi yn hytrach na galwad ffôn.

Yn ystod y diwrnod cyntaf ar ôl canlyniad LFT positif bydd y person yn cael prawf PCR yn y ganolfan brofi. Byddwn ni fel ysgol yn adolygu sefyllfa pob unigolyn gyda Test, Trace, Protect. Bydd hwn yn cynnwys ystyriaeth o leoliad disgyblion mewn dosbarthiadau neu ar y bws ysgol. Bydd hwn yn adnabod rhai cysylltiadau sydd yn gysylltiadau agos a rhai sydd yn gysylltiadau eraill. Mae'r cysylltiadau eraill yn derbyn neges gan yr ysgol eu bod nhw'n medru dychwelyd ac nid oes rhaid iddynt barhau i ynysu. Mae'r penderfyniad ar gyfer y cysylltiadau agos yn dibynnu ar ganlyniad y prawf PCR - os mae hwn yn negatif gallent ddychwelyd, os mae'n bositif mae disgwyl iddynt ynysu.

Mae rhai achosion dros y flwyddyn wedi codi gyda disgyblion sydd yn yr un dosbarth am nifer o wersi yn medru dychwelyd ond rhai sydd yn yr un dosbarth ar gyfer un pwnc yn unig yn gorfod parhau i ynysu – mae hwn i wneud a'r pellter rhwng y disgyblion yn y dosbarth yn hytrach na'r amser maent yn yr un dosbarth.

Mae'r broses yn arwain at bawb yn derbyn galwadau yn ystod yr un cyfnod ar y diwrnod cyntaf, ond mae negeseuon am ddychwelyd neu barhau i ynysu yn digwydd dros gyfnod.

Adroddiadau

Bydd disgyblion blwyddyn 7-10 yn derbyn adroddiadau ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd y rhain yn rhai cryno sy'n adlewyrchu natur wahanol iawn y flwyddyn.

Prosiect pleidlais

Roedd 156 o ddisgyblion CA3 Ceredigion wedi pleidleisio mewn prosiect pleidlais y comisiynydd plant, gyda nifer sylweddol yn ddisgyblion Penweddig. Gellid gweld canlyniadau'r bleidlais ar gyfer Ceredigion yma: Canlyniadau manwl fesul etholaeth | Project Vote (prosiectpleidlais.cymru)

Gollwng a Chasglu Disgyblion

Gofynnaf yn garedig i rieni sy'n gollwng plant yn y bore i beidio aros tu allan i'r adeilad er mwyn cadw'r llif traffig. Gallwch ollwng eich plant ger y maes parcio staff. Gofynnaf hefyd i rieni osgoi blocio Cilgant Padarn wrth aros am eich plant ar ddiwedd y dydd.

Dymunaf benwythnos braf i chi gyd, a gobeithiwn ni welwn gesair eto tan y gaeaf,



Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)